Gweiddi

**Tasg 1**

# Y Plygain

1. Beth rydych chi'n ei ddysgu am y Plygain o'r dyddiaduron hyn?
   Gwnewch nodiadau.
   Cymharwch eich nodiadau chi â nodiadau eich partner chi.

2. Gwyliwch ddarnau o fideo sy'n dangos y Plygain ar y we.
   Mae rhai fideos ar y wefan hon – cliciwch arnyn nhw:

   https://cy.wikipedia.org/wiki/Y_plygain

   Beth arall rydych chi'n ei ddysgu am y Plygain o'r fideos hyn?

3. Chwiliwch am fwy o wybodaeth am y Plygain, e.e.
   - Pa offerynnau oedd yn cael eu defnyddio (os o gwbl)?
   - Pa fath o garolau roedden nhw'n eu canu?
   - Pwy oedd yn trefnu pwy oedd yn mynd i gymryd rhan a beth fydden nhw'n ei ganu?
   - Faint o ymarferion oedd y cael eu cynnal o flaen llaw (os o gwbl)?
   - Pa fath o ganu oedd e – canu clasurol? Canu gwerin? Canu o safon uchel iawn?
   - Beth oedd yn digwydd yn ail hanner y gwasanaeth?

4. Sut mae'r Plygain yn wahanol i wasanaethau carolau arferol?

5. Darllenwch y darn hwn am hanes y Plygain:

Mae'r Plygain yn hen draddodiad yng Nghymru ac mae'n mynd yn ôl rai canrifoedd – cafodd rhai carolau Plygain eu cyfansoddi yn yr ail ganrif ar bymtheg, er enghraifft.
Roedd y gwasanaeth Plygain yn boblogaidd iawn yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg ond dechreuon nhw fynd yn llai poblogaidd wrth i broblemau godi – roedd llawer o'r dynion ifanc yn yfed ac yn meddwi cyn mynd i'r gwasanaeth, er enghraifft.
Mewn rhai ardaloedd, daeth y gwasanaethau Plygain i ben yn llwyr. Fodd bynnag, mewn ardaloedd eraill, mae'r arfer yn parhau.
Heddiw, mae tua hanner cant yn cael eu cynnal bob blwyddyn.

Ydych chi'n meddwl ei bod hi'n bwysig parhau â hen draddodiadau fel y Plygain? Gallwch chi feddwl am hen draddodiadau eraill hefyd os ydych chi eisiau, ond cofiwch roi rhesymau i gefnogi beth rydych chi'n ei ddweud.

Gwnewch nodiadau.
Trafodwch y pwnc hwn mewn grŵp.

6. Ysgrifennwch ddarn ar gyfer cylchgrawn hanesyddol o dan y teitl:
   **Pwysigrwydd rhai traddodiadau heddiw.**